



Bethan Jenkins AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

4 Hydref 2016

Annwyl *Bethan,*

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Medi ynghylch fy ymddangosiad ger bron y Pwyllgor ar 14 Medi. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, addewais y byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am nifer o faterion ac mae'r wybodaeth honno wedi'i nodi isod.

#### Cymru Hanesyddol

Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ddydd Mercher 28 Medi ynghylch Cymru Hanesyddol. Ar yr un pryd, cyhoeddais adroddiad PWC, *'Investing in the future to protect the past'*, ynghyd â chylch gorchwyl y grŵp llywio a fydd yn mynd â'r gwaith hwn ragddo drwy'r cam nesaf. Hyderaf y bydd y Datganiad a'r adroddiad o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Rydych yn awgrymu y dylid cynnal sesiwn frifio i'r Pwyllgor ar Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a byddwn yn fwy na pharod i ofyn i'm swyddogion drefnu hyn pan deimlwch fod yr amser yn iawn. Os hoffai unrhyw aelodau gael gwybodaeth bellach am y Ddeddf yn y cyfamser, dylent gysylltu â Gwilym Hughes, Prif Arolygydd Henebion ac Adeiladau Hanesyddol, yn [gwilym.hughes2@wales.gsi.gov.uk](mailto:gwilym.hughes2@wales.gsi.gov.uk)

#### Cynllun Amgueddfeydd newydd i Gymru

Nodwyd nifer o'r materion allweddol sy'n wynebu amgueddfeydd lleol ledled Cymru yn yr Adroddiad Arbenigol o Wasanaethau Amgueddfeydd. Byddwn yn sicrhau bod ein cynllun newydd ar gyfer amgueddfeydd yn nodi sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Roeddwn yn falch bod cynrychiolwyr o'r sector yn bresennol yn ein grŵp ffocws ym mis Medi a gynhaliwyd i drafod sut y gall amgueddfeydd symud ymlaen dros y pum mlynedd nesaf, a'u hymrwymiad i gydweithio â ni i ddatblygu cynllun strategol, cydgysylltiedig a chynaliadwy ar gyfer dyfodol amgueddfeydd yng Nghymru. Mae fy swyddogion wrthi'n llunio amlinelliaid cychwynnol drafft o'r cynllun a fydd ar gael i ymgynghori'n ehangach arno ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk](mailto:Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Rhaglen 'Cyfuno'

Mae fy swyddogion wedi paratoi nodyn briffio sy'n crynhoi prif elfennau'r rhaglen hon, a'r cynnydd a welwyd hyd yma. Mae'r nodyn wedi'i atodi yn Atodiad 1.


## Rhaglen y Celfyddydau a Dysgu Creadigol

Yn yr un modd â'r uchod, mae fy swyddogion wedi paratoi nodyn briffio, a atodir yn Atodiad 2.

## 'Fforwm y Cyfryngau'

Cafodd y penderfyniad i greu Fforwm Cyfryngau Annibynnol ei gyhoeddi gyntaf gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Mae'r Gweinidog a minnau wrthi'n cydweithio er mwyn cytuno ar fanylion cwmpas a chylch gorchwyl y Fforwm Cyfryngau Annibynnol a fydd, yn naturiol, yn cynnwys darlledu, sy'n dod o dan ei bortffolio. Mae swyddogion wrthi'n paratoi cyngor pellach a byddwn yn mynd ati i fwrw golwg dros y cyngor hwnnw'n fuan. Caiff nodyn briffio ei roi i'r Pwyllgor er gwybodaeth iddo yn ystod yr wythnosau nesaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Alun Davies er mwyn iddo fod yn ymwybodol o'r sylwadau hyn ynghylch Fforwm y Cyfryngau.



### **Ken Skates AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith  
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

## Rhaglen Cyfuno: Nodyn Briffio

1. Mae rhaglen *Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant* yn ymyriad cost isel sy'n integreiddio gwahanol wasanaethau ac yn eu cysoni ag agenda gwrthdlodi Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru, drwy MALD, yn hwyluso'r rhaglen drwy ddarparu fframwaith cyffredinol y gall amryw sefydliadau ei ddefnyddio i gyfrannu at agenda a rennir. Nid yw'r defnydd hwn o ddiwylliant wedi'i annog, ei gefnogi na'i werthuso yn y ffordd strategol hon o'r blaen. Mae'r fframwaith ar gyfer rhaglen *Cyfuno* yn seiliedig ar [Diwylliant a Thlodi](#), adroddiad gan y Farwnes Andrews. Yn ei hadroddiad, galwodd y Farwnes Andrews ar i *Rwydweithiau Cymunedau a Diwylliant* gael eu sefydlu, gan gysoni gweithgarwch y sector diwylliannol â rhaglenni cymunedol.
2. Yn 2015-16, mewn ymateb i adroddiad Andrews, aethom ati i sefydlu **Rhaglen Ardaloedd Arloesi** gyda chwe chyfranogwr. Gyda chymorth MALD, aeth clymbleidiau o gyrff diwylliannol a chymunedol ati i ddatblygu gweithgarwch diwylliannol newydd ac addasu rhaglenni presennol er mwyn cefnogi rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn uniongyrchol. Ymhlith y gweithgarwch a welwyd yn 2015-16 roedd rhaglenni cynhwysiant digidol achrededig, lleoliadau gwirfoddoli a chynlluniau i sicrhau bod pobl ifanc yn ailymgysylltu ag addysg. Cynhaliwyd dros 30 o brosiectau, gyda thros 1,500 o unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a thros 500 yn dilyn rhaglenni strwythuredig, cyrsiau neu ddysgu achrededig.
3. Yn ôl [gwerthusiad](#) GSR (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth) a gomisiynwyd gennym:
  - Mae cyrff yn cydweithio'n fwy, mewn ffyrdd mwy arloesol a deinamig
  - Mae cyrff diwylliannol mewn Ardaloedd Arloesi yn mynd ati fwyfwy i gysoni blaenoriaethau
  - Mae Ardaloedd Arloesi yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth ddiwylliannol ar gyfer grwpiau dan anfantais
  - Roedd diwylliant yn ffordd effeithiol o ymgysylltu ag unigolion
4. Yn ogystal â rhaglen Ardaloedd Arloesi, rydym yn mynd i'r afael â sawl **blaenoriaeth genedlaethol allweddol** a nodwyd yn adroddiad Andrews. Mae'r allbynnau wedi'u cynllunio i ganolbwyntio ar gymunedau dan anfantais, gan gynnwys:
  - Cynnig mawr ar gyfer arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri i ddarparu lleoliadau hyfforddi yn y sector treftadaeth ddiwylliannol.
  - Mesurau strategol i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli a dysgu achrededig, dileu rhwystrau o ran trafndiaeth a chysylltu'n well â'r agenda iechyd a lles.
5. Yn 2016-17, rydym wedi ehangu rhaglen Ardaloedd Arloesi ac mae **10 Ardal Arloesi bellach yn weithredol**. Eleni, rydym wedi pwysleisio'r canlyniadau o ran cyfleoedd gwirfoddoli, dysgu achrededig a llwybrau at gyflogaeth.
6. Mae'r model Ardaloedd Arloesi yn dibynnu ar ddarparwyr diwylliannol i ddarparu cynnwys - lleoliadau, staff, gweithgareddau ac arbenigedd. Yn bwysig iawn, caiff ei gyflwyno ar y cyd â rhaglenni cyflogadwyedd a gwrthdlodi cymunedol, sy'n golygu bod cyrff diwylliannol yn gallu cyrraedd ymhellach i mewn i gymunedau a bod y rhaglen yn cael llawer mwy o effaith.
7. Cyn i'r rhaglen gael ei chyflwyno, roedd cyrff diwylliannol yn ceisio ac, mewn nifer o achosion, yn methu â meithrin cysylltiadau dwfn, parhaus â chymunedau dan anfantais. Roedd gwaith allgymorth yn dueddol o fod yn achlysurol ei natur ac nid oedd y rhan fwyaf o gyrff yn meddu ar y cysylltiadau i ddeall nac ymateb i anghenion cymunedau

lleol yn effeithiol. Nid oeddent ychwaith yn cydweithio'n effeithiol. Mae'r sector diwylliannol wedi buddsoddi'n sylweddol yn rhaglen *Cyfuno* a'r ffyrdd newydd o feddwl a anogir drwyddi.

## Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: Nodyn Briffio

Mae *Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau - cynllun gweithredu ar gyfer Cymru* yn nodi amryw o gyfleoedd newydd i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Yr hyn sydd wraidd y gweithgarwch hwn yw dysgu am y celfyddydau a diwylliant, cymryd rhan yn y celfyddydau a meithrin sgiliau creadigol ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Nod Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau yw:

- Gwella cyrhaeddiad drwy greadigrwydd
- Cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd mewn ysgolion ym maes y celfyddydau
- Cyflawni'r tair blaenoriaeth o ran addysg: gwella llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith anfantais
- Cefnogi athrawon ac ymarferwyr y celfyddydau i ddatblygu ei sgiliau.

Mae *Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau*, cynllun pum mlynedd a lansiwyd ym mis Mawrth 2015, yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru (Cyngor y Celfyddydau). Nod y cynllun yw rhoi creadigrwydd a'r celfyddydau wrth wraidd y broses ddysgu, a chyflwyno newid mawr yn y ffordd y mae sector y celfyddydau a'r sector addysg yn cydweithio. Am ragor o wybodaeth ac i lawrlwytho copi o'r cynllun, ewch i'r wefan yn <http://www.arts.wales/what-we-do/creative-learning/the-all-wales-arts-and-education-programme/rhwydweithiau-rhanbarthol?diablo.lang=cym>

## Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol

Mae Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn un o ddwy brif elfen cynllun gweithredu *Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau*. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle unigryw i ysgolion ddatblygu technegau dysgu creadigol sy'n eu helpu i fynd i'r afael â materion allweddol a nodir yn eu cynlluniau datblygu ysgol. Disgwylir i bob prosiect, sydd wedi'i deilwra'n arbennig, gynnwys elfen o lythrennedd neu rifedd neu gamau i fynd i'r afael â thangyflawni ymhlith disgyblion sy'n profi amddifadedd. Yn ddiddorol, mae llawer o'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun wedi llwyddo i ddefnyddio dulliau gweithredu creadigol i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion eraill, fel tangyflawni ymhlith bechgyn a'r broses bontio. Mae'r prosiectau wedi bod yn rhai cwbl drawsbynciol hefyd gan gynnwys, er enghraifft, gwyddoniaeth, hanes a TG, ochr yn ochr â Saesneg a mathemateg. Bydd modd i Ysgol Greadigol Arweiniol ddefnyddio pobl, sgiliau ac adnoddau creadigol i'w helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Bydd Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gwneud y canlynol:

- Gweithredu yn ystod oes *Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau - cynllun gweithredu ar gyfer Cymru*
- Defnyddio dulliau creadigol o ddysgu er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad, ac fel ffyrdd o wella'r ysgol gyfan
- Meithrin partneriaethau ystyrlon a chynaliadwy sy'n targedu meysydd datblygu a nodwyd gan ysgolion eu hunain yng Nghymru

## Yng Nghylch 1

- Cynigiwyd 99 o grantiau i gefnogi 128 o ysgolion a oedd yn cymryd rhan mewn prosiectau.
- Derbyniwyd 325 o geisiadau ar gyfer 'rolau Asiantau Creadigol' yng Nghylch 1. Cyrhaeddodd 64 o unigolion y rhestr fer a'u gwahodd i gael hyfforddiant. Cafodd 59 o unigolion eu hyfforddi drwy gyfrwng un o dri chwrs 4 diwrnod dwys yng Nghaerdydd a Wrecsam. Cafodd 48 o unigolion eu paru ag ysgolion a'u penodi'n Asiantau Creadigol

ym Mlwyddyn 1 (*tynnodd chwe unigolyn yn ôl neu gohiriwyd eu penodiad oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau; ni chafodd pum unigolyn eu paru ag ysgolion.*)

## Yng Nghylch 2

- Cynigiwyd 120 o grantiau i gefnogi 148 o ysgolion a oedd yn cymryd rhan mewn prosiectau.
- Derbyniwyd 211 o geisiadau ar gyfer rolau Asiantau Creadigol yng Nghylch 2. Cyrhaeddodd 94 o unigolion y rhestr fer a'u gwahodd i gael hyfforddiant ym mis Mai 2016. Derbyniodd 87 o unigolion hyfforddiant yn Nantgarw, Abertawe neu Landudno ym mis Mai. Aethpwyd ati i baru Asiantau Creadigol ag ysgolion ar ddechrau mis Mehefin. O'r 87 o unigolion a gafodd hyfforddiant, tynnodd un yn ôl ac ni chafodd 14 eu hargymell i'w paru. Roedd hyn yn golygu bod 72 o Asiantau Creadigol ar ôl ar gyfer Cylch 2.

Mae 514 o ddatganiadau o ddi-ddordeb wedi dod i law hyd yma oddi wrth unigolion/sefydliadau sydd am gymryd rhan mewn prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol. Yn 2015, cynhaliodd Cyngor y Celfyddydau chwe sesiwn hyfforddi ar gyfer Ymarferwyr Creadigol Cylch 1 Blwyddyn 1 gyda thua 135 o unigolion yn mynychu'r sesiynau hynny. Yn 2016, mae hyfforddiant i Ymarferwyr Creadigol wedi'i drefnu ym mhob rhanbarth drwy gydol mis Tachwedd. Bydd ceisiadau ar gyfer Cylch 3 y rhaglen, a fydd yn dechrau yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18, yn agor ar 6 Hydref 2016.

### **Astudiaeth achos Ysgol Greadigol Arweiniol: Ysgol Gyfun Gymunedol Sant Cenydd, Caerffili**

*Gwella ymgysylltiad, presenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim ym mlwyddyn 8 mewn Daearyddiaeth a rhifedd a llythrennedd.*

Tracey Moberly - artist celf amlgyfrwng a gweledol proffil uchel lleol, yn gweithio gyda'r athrawes Daearyddiaeth leol Nicola Webber. Dyfeisiwyd prosiect yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol/ffilm/ffotograffiaeth i ymchwilio i newidiadau yn afon Nant yr Aber o'i tharddiad i'w chydlifiad ag aber afon Rhymni ac effaith yr afon ar y mathau o gymunedau y mae'n llifo drwyddynt. Dull 'ymarferol' o astudio daearyddiaeth. Cafodd tasgau llythrennedd eu cydblethu â gweithgarwch 'trip maes' gyda'r disgyblion yn dogfennu eu prosiect drwy gyfrwng blogiau, barddoniaeth a chelf amlgyfrwng a gweledol.

### **Effaith Ysgol Greadigol Arweiniol ar gyrhaeddiad: Ysgol Gynradd Bryn**

*Cynnydd o ran Llafaredd:* Pob disgybl wedi codi dwy is-lefel neu fwy, hanner y disgyblion wedi codi tair is-lefel. Mae 93% yn gweithio ar ddiwedd Lefel Cwricwlwm Cenedlaethol CA2 neu uwchlaw hynny, ac mae 71% wedi cyrraedd neu ragori ar y targedau personol a osodwyd ganddynt.



*Cynnydd o ran Ysgrifennu:* Pob disgybl wedi gwneud cynnydd, 64% wedi codi dwy is-lefel neu fwy, 79% eisoes yn gweithio ar ddiwedd Lefel Cwricwlwm Cenedlaethol CA2 neu uwchlaw hynny a 43% wedi cyrraedd y targed personol a osodwyd ganddynt.

Mae Timau Rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gael i gefnogi'r cynllun: Gogledd Cymru: [nia.richards@arts.wales](mailto:nia.richards@arts.wales), Canolbarth a Gorllewin Cymru: [sophie.hadaway@arts.wales](mailto:sophie.hadaway@arts.wales), De-ddwyrain Cymru: [shaun.featherstone@arts.wales](mailto:shaun.featherstone@arts.wales), De Canol Cymru: [ian.mcandrew@arts.wales](mailto:ian.mcandrew@arts.wales)

Mae rhagor o wybodaeth a chopi o Brosiectws Ysgolion Creadigol Arweiniol ar gael yn <http://www.arts.wales/what-we-do/creative-learning/the-lead-creative-schools-scheme/ymarferwyr-creadigol?diablo.lang=cym>

### **Profi'r Celfyddydau**

Credwn y dylid rhoi cyfle i blant a phobl ifanc gael eu hysbrydoli a'u cyffroi gan y celfyddydau gorau yng Nghymru. Ein nod yw rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol fel rhan arferol o'u profiad dysgu ehangach. Mae Profi'r Celfyddydau yn gynllun ag iddo ddwy ffrwd a chredwn y bydd yn cael effaith fawr ar brofiadau dysgu ein pobl ifanc, ni waeth ble yng Nghymru y maent yn byw.

### Ewch i Weld

Cynllun yw Ewch i Weld sy'n ariannu ymweliadau â digwyddiadau celfyddydol o safon mewn orielau, theatrau, canolfannau celfyddydol a lleoliadau eraill. Gall digwyddiadau gynnwys ymweliadau â pherfformiadau ac arddangosfeydd neu ymweliadau â gweithwyr proffesiynol profiadol ym maes y celfyddydau sydd wrthi'n datblygu ac yn creu eu gwaith. Gall ysgolion wneud cais am hyd at £1,000 unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn. Bydd grant Cyngor y Celfyddydau yn talu am hyd at 90% o gostau'r profiad. Rhoddwyd 29 o grantiau gwerth tua £20,000 hyd yma. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r canlynol:

- Aeth Ysgol Gynradd Romilly â 90 o ddisgyblion dosbarth derbyn i Amgueddfa Genedlaethol Cymru i gymryd rhan ym mhrosiect 'Ymweliad Cyntaf ag Oriol' a oedd yn cynnwys ymweld ag arddangosfa a chymryd rhan mewn gweithdai/gweithgaredd gydag artistiaid.
- Aeth Ysgol Bro Tawe ag 85 o ddisgyblion i gynhyrchiad Theatr Na nÓg o *The Ghost of Morfa Colliery* a gweithdai creadigol yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a'r Amgueddfa Genedlaethol yn Abertawe.
- Aeth Ysgol Carrog â 15 o ddisgyblion CA2 (y cyfnod allweddol i gyd) i Bafiliwn y Rhyl i glywed yr awdur Michael Morpurgo yn darllen o'i lyfrau.
- Aeth Ysgol Dyffryn Aman â 21 o ddisgyblion Blwyddyn 10 i Ysgol Gelf Caerfyrddin i gymryd rhan mewn gweithdy cerameg.
- Aeth Ysgol Gynradd Adamsdown â 60 o ddisgyblion Blwyddyn 4 a 5 i Wyl Undod Hijinx yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

### Cydweithio Creadigol

Hanfod Cydweithio Creadigol yw arloesi. Wrth gyflwyno ceisiadau, mae'n rhaid i ysgolion a/neu sefydliadau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth ddarbwylllo Cyngor y Celfyddydau bod y cynnig yn un arloesol, yn cynnig gwerth ychwanegol ac yn gynaliadwy. Gall ysgolion sydd am weithio mewn ffordd gynaliadwy â sefydliad

celfyddydol neu sefydliad diwylliannol neu dreftadaeth arall wneud cais am hyd at £25,000. Ni all Cyngor y Celfyddydau gynnig arian i ysgolion sydd eisoes yn elwa ar grant Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Bydd yn rhoi hyd at 90% o'r costau. Mae angen i Cyngor y Celfyddydau gael tystiolaeth ysgrifenedig o'r cydweithio sy'n digwydd rhwng yr ysgol a'r sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y prosiect. Mae deg grant gwerth tua £163,000 wedi'u rhoi hyd yma. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r canlynol:

- Mae Opera Canolbarth Cymru, ar y cyd ag Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Trefaldwyn ym Mhowys, yn cynnal preswylfeydd pythefnos o hyd gyda'r ysgol iau gyfan, er mwyn creu, datblygu a pherfformio dau gynhyrchiad newydd, gan ddefnyddio gwaith Janacek, *Cunning Little Vixen*, a gwaith Saint-Exupery, *The Little Prince*, fel ysbrydoliaeth.
- Mae Motion Control Dance, ar y cyd â phedair ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd yn y Barri, yn datblygu rhaglen ddawns gyfranogol greadigol er mwyn gwella cyrhaeddiad disgyblion o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a sicrhau eu bod yn gwneud mwy o ymarfer corff; y grŵp targed yw merched Blwyddyn 6 a 7.
- Mae Ysgol Awel y Mynydd yng Nghonwy yn gweithio gyda saith ysgol gynradd leol arall i sefydlu cerddorfa ukelele a meithrin mwy o gydlynid o fewn eu cymuned o ysgolion.

Y dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau yw 17 Hydref 2016.

Am ragor o wybodaeth am y ddwy ffrwd ariannu ac i lawrlwytho copi o'r canllawiau ariannu, ewch i <http://www.arts.wales/what-we-do/creative-learning/the-all-wales-arts-and-education-programme/experiencing-the-arts>

### **Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg**

Mae'r Rhwydweithiau'n gweithio gydag ysgolion, Consortia Addysg Rhanbarthol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn y sector addysg, sector y celfyddydau, a'r sectorau creadigol, diwylliannol a threftadaeth yn y pedwar rhanbarth hyn. Bydd y rhwydweithiau'n cynyddu ac yn gwella profiadau a chyfleoedd celfyddydol mewn ysgolion drwy feithrin cysylltiadau rhwng:

- athrawon, addysgwyr a phartneriaid o'r sector addysg
- ymarferwyr celfyddydol, sefydliadau a lleoliadau celfyddydol
- sefydliadau diwylliannol a threftadaeth a lleoliadau fel amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau
- darparwyr celfyddydau awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau cerddoriaeth
- partneriaid celfyddydol a diwylliannol ym maes addysg uwch
- sector y diwydiannau creadigol

Mae gan bob Rhwydwaith hyd at £1.25m ar gyfer trefnu digwyddiadau rhwydweithio a chyfleoedd rhwydweithio rhithwir. Eu cylch gwaith yw:

- Trefnu cyfleoedd datblygu proffesiynol o safon dda i athrawon, artistiaid a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol
- Cydgysylltu cyfleoedd rhwydweithio i athrawon a phobl greadigol o'r sectorau celfyddydol, creadigol, diwylliannol a threftadaeth
- Mynd ati i feithrin cysylltiadau rhwng ysgolion, artistiaid a sefydliadau celfyddydol
- Rhannu enghreifftiau o arfer gorau
- Cyflwyno rhaglen 'Hyrwyddwyr Celfyddydau' leol



Mae'r Rhwydweithiau'n seiliedig ar yr un ffiniau daearyddol â'r Consortia Addysg Rhanbarthol ac fe'u harweinir gan y canlynol:

Gogledd Cymru: Cyngor Sir y Fflint; Cydgysylltwyr y Rhwydwaith: Mari Pritchard ac Iwan Williams [mari@edau.cymru](mailto:mari@edau.cymru) ac [iwan@edau.cymru](mailto:iwan@edau.cymru)

Canolbarth a Gorllewin Cymru: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; Cydgysylltydd y Rhwydwaith: Rhian Jones [Rhian.jones@uwtsd.ac.uk](mailto:Rhian.jones@uwtsd.ac.uk)

De-ddwyrain Cymru: Cyngor Bwrdeistref Caerffili; Cydgysylltydd y Rhwydwaith: Victoria Jones [jonesvje@caerphilly.gov.uk](mailto:jonesvje@caerphilly.gov.uk)

Canol De Cymru: Ymddiriedolaeth Arts Active; Cydgysylltydd y Rhwydwaith: David Baxter [dave@artsactive.org.uk](mailto:dave@artsactive.org.uk)

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <http://www.arts.wales/what-we-do/creative-learning/the-all-wales-arts-and-education-programme/rhwydweithiau-rhanbarthol?diablo.lang=cym>

### **Y Parth Dysgu Creadigol**

Mae'r Parth Dysgu Creadigol (ar Hwb) yn llawn o astudiaethau achos ar wahanol agweddau ar *Dysgu creadigol trwy'r celfyddydau* a manylion cyfleoedd a gwybodaeth i ysgolion a gweithwyr creadigol proffesiynol sydd am weithio gydag ysgolion. <http://hwb.wales.gov.uk/creativity>